



SWYDD VACANCY

**Gweithiwr Cefnogi Diogelwch yn y Cartref
Parhaol, 37 awr yr wythnos
Swyddfa Sirol Wrecsam, Canolfan Adnoddau'r Gwasanaeth Ambiwlans a Thân,
Ffordd Croesnewydd, Wrecsam LL13 7YU
Gradd 04 GTAGC £19,819 – £21,074 y flwyddyn**

Gweithio'n agos gyda grwpiau bregus mewn cymunedau yng Ngogledd Cymru a darparu cyngor, arweiniad ac offer diogelwch i gyfrannu at eu hiechyd a'u lles.

CYMWYSTERAU I'W HARDDANGOS

Mae'r rôl yn gofyn am ymgeiswyr sy'n gallu arddangos (gyda thystiolaeth)y canlynol:

Gofynion Hanfodol

- Addysg hyd at NVQ Lefel 2 neu gyfwerth mewn pwnc yn ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, neu brofiad cyfwerth o weithio gyda'r grŵp targed a nodwyd.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o anghenion y rhai sydd yn y grŵp targed a nodwyd.
- Sgiliau rhagorol mewn Technoleg Gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth ddigonol o feddalwedd Microsoft Office.
- Gallu rheoli eich amser a'ch llwyth gwaith eich hun, a chwrdd â therfynau amser.
- Gallu gweithio fel rhan o dîm ac yn annibynnol, gan ddefnyddio'ch blaengaredd eich hun.
- Sgiliau cyfathrebu a chyflwyno rhagorol.
- Trwydded yrru lawn ar gyfer gyrru cerbydau ysgafn y Gwasanaeth
- Yn amodol ar Wiriad Cofnodion Troseddol Ehangach
- **Cymraeg Lefel 2** – Siarad a Gwrando (i'w gyflawni cyn ddiwedd y cyfnod prawf – gyda cymorth) – Mynnir eich bod yn gallu;
Deall hanfodion sgwrs yn y gweithle. Ymateb i ofynion syml yn ymwneud â'r swydd a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol. Gofyn cwestiynau syml a deall ymatebiadau syml. Mynegi rhywfaint o'ch barn cyn belled bod y pwnc yn gyfarwydd. Deall cyfarwyddiadau pan ddefnyddir iaith syml.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw hanner dydd, 10 Medi 2018.

Dalier sylw, pe byddech yn cyrraedd y rhestr, cynhelir yr asesiadau a chyfweliadau ar 20 - 21 Medi 2018.

Glynir at y dyddiad cau ac ni fydd eithriadau.

Mae rhagor o fanylion a ffurflenni cais ar gael ar wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, neu o'r Adran Adnoddau Dynol ar 01745 535280 neu drwy anfon e-bost i Hrdesk@gwastan-gogecymru.org.uk

*Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal a chroesawn geisiadau gan bob rhan o'r gymuned.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gydradd i'r ddwy ac yn ymateb yn eich dewis iaith heb oedi.*

